# Cofnod Penderfyniadau:
# Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

# Decision Record:
# Police and Crime Commissioner for North Wales

SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

| | |
|---|---|
| | **Part 1** |
| | **Cyf/Ref: DM.2020/21** |
| **Teitl:** | **Title:** |
| Ad-dalu'r swm o £201,219.63 i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | Refund the sum of £201,219.63 to North Wales Fire and Rescue Service |
| **Crynodeb Gweithredol:** | **Executive Summary:** |
| Cytunodd Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (NWFRS) i gydweithio ar sefydlu Systemau Rheoli Cyfathrebiadau Integredig (ICCS) a thalodd NWFRS £244,444.65 i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer y pwrpas hwn.<br><br>Penderfynodd y Gwasanaeth Tân ac Achub wneud eu trefniadau eu hunain ar gyfer sefydlu'r system a gofyn am ddychwelyd y blaendal.<br><br>Ar ôl tynnu'r gwariant a wnaed gan Heddlu Gogledd Cymru am gostau yn perthyn yn uniongyrchol i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn mynd i ad-dalu £201,219.63. | North Wales Police and North Wales Fire and Rescue Service (NWFRS) had an agreement to collaborate on the implementation of the Integrated Communications Control System (ICCS), and NWFRS paid £244,444.65 to the Police and Crime Commissioner for this purpose.<br><br>North Wales Fire and Rescue Service then decided to make its own arrangements for the implementation of a system, and requested the return of the deposit.<br><br>After deducting expenditure incurred by North Wales Police for costs directly attributable to North Wales Fire and Rescue Service, the Police and Crime Commissioner is to refund £201,219.63. |
| **Goblygiadau:** | **Implications:** |
| Gosodwyd yr arian hwn mewn cronfeydd, ar gyfer ei dalu ar ran Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, felly nid oes effaith ar gyllideb y Comisiynydd Heddlu a Throsedd neu Heddlu Gogledd Cymru.<br><br>Bydd ad-daliad y swm hwn yn rhyddhau'r Comisiynydd a'r Heddlu oddi wrth unrhyw atebolrwydd i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yng nghyswllt y mater hwn.<br><br>Nid oes goblygiadau yn ymwneud â phersonél, cydraddoldeb ac amrywiaeth, yr Iaith Gymraeg na'r Cynllun Heddlu a Throsedd. | This money was placed in reserves, in anticipation of it being paid out on behalf of North Wales Fire and Rescue Service, therefore there is no impact on the budget of the Police and Crime Commissioner or North Wales Police.<br><br>The repayment of this amount will release the Commissioner and Force from any further liability to North Wales Fire and Rescue Service with regard to this matter.<br><br>There are no implications related to personnel, equality and diversity, Welsh language or the Police and Crime Plan |
| **Prif Weithredwr a Swyddog Monitro:** | **Chief Executive and Monitoring Officer:** |
| *Rwyf yn cadarnhau fod hwn yn gais addas i'w gyflwyno i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.*<br><br>*Rhan 1 o'r ddogfen hon i'w chyhoedd* | *I confirm that this is an appropriate request to be submitted to the Police and Crime Commissioner.*<br><br>*Part 1 of this document is to be published* |
| **Llofnod / Signature:** | **Dyddiad/Date**<br><br>**9 Gorffennaf / July 2020** |

## Cofnod Penderfyniadau:
## Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

## Decision Record:
## Police and Crime Commissioner for North Wales

| **Cymeradwyaeth a sylwadau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd** | **Approval and comments of Police and Crime Commissioner** |
| --- | --- |
| *Gallaf gadarnhau fy mod yn cymeradwyo'r hyn a nodwyd uchod* | *I confirm that the above request has my approval* |

Llofnod / Signature:

*Arfon Jones*
*Comisiynydd Heddlu a Throsedd - Police and Crime Commissioner*
Dyddiad/Date: 9 Gorffennaf / July 2020